**CYPE(6)-12-22 - Papur i'w nodi 5**

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
SeneddPlant@senedd.cymru

17 Mai 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 31 Mawrth, ynghylch Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Ym mis Medi 2021, cytunais i symud y trefniadau ymlaen mewn egwyddor, fel cam cymesur, yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth flaenorol. Ers hynny, mae gwaith wedi mynd rhagddo ar bob elfen, gan gynnwys y canllawiau statudol newydd, pecyn cymorth ehangach a'r rheoliadau ar gronfa ddata.

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion i'r ail ymgynghoriad (y rheoliadau ar gronfa ddata) ar wefan Llywodraeth Cymru.

Wedi adolygu'r gwaith a wnaed eisoes ar y cynigion ynghylch Addysg Ddewisol yn y Cartref, aeth fy swyddogion ati hydref diwethaf i chwilio am dystiolaeth bellach i gefnogi'r cynigion o ffynonellau mewnol ac allanol. Rydym yn dal i aros am un elfen o'r gwaith hwn, sef yr elfen sy'n ymwneud â meincnodi'r broses o rannu data rhwng asiantaethau.

Gallai'r oedi yn y dystiolaeth hon, oedi nad oeddem yn ei ragweld, olygu mai ym mis Medi y caiff y cynigion eu cyflwyno gerbron y Senedd, yn hytrach nag ym mis Mehefin fel a fwriadwyd. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i hyn effeithio ar yr amserlen o ran gweithredu'r cynigion ym mis Ebrill 2023.

Mae fy swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos â'n rhanddeiliaid ar ddatblygu'r pecyn cymorth ehangach i deuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref a fydd yn cynyddu cyfleoedd addysgol i blant sy'n derbyn yr addysg honno, yn gwella eu proses ddysgu ac yn annog mynediad at wasanaethau cyffredinol. Crewyd gweithgorau penodol i hyrwyddo hyn. Byddaf hefyd yn cwrdd â chynrychiolwyr teuluoedd plant sy'n cael eu haddysgu gartref ar 18 Mai, er mwyn clywed drosof fy hun beth yw'r problemau sy'n eu hwynebu o ran sicrhau addysg effeithiol yn y cartref, a sut y gallwn eu cefnogi yn eu dewis.

Mae swyddogion hefyd wedi cwrdd â Gyrfa Cymru i drafod sut, fel rhan o'r pecyn cymorth ehangach, gall rôl y cydlynydd Addysg Ddewisol yn y Cartref dynodedig ddarparu gwasanaeth cyson i bobl ifanc sy'n derbyn yr addysg honno ledled Cymru a helpu i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng dysgwyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Ebrill 2022, ymunodd Cynghorydd Proffesiynol Addysgol â Llywodraeth Cymru ar secondiad o Gyngor Sir Mynwy, gyda'r nod o helpu i barhau i ddatblygu a gweithredu'r cynigion.

Gobeithio bod y wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language